

# PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

**DYDD GWENER, 27 HYDREF 2023**

**PRESENNOL:** D. MacGregor (Cadeirydd)

**Cynghorwyr (Yn y Siambr):**

K.V. Broom

**Cynghorwyr (Yn rhithwir):**

A. Evans

A.G. Morgan

P.T. Warlow

D.E. Williams

J. Williams

T. Davies

**Aelodau Lleyg (Yn y Siambr):**

J. James

K. Jones

M. MacDonald

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

E. Ansell, Cynrychiolydd Archwilio Cymru

J. Blewitt, Cynrychiolydd Archwilio Cymru

D. Owen, Cynrychiolydd Archwilio Cymru

**Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):**

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol

R. Hemingway, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol

H. Pugh, Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol

C. Powell, Prif Archwilydd

S. Wride, Uwch Swyddog Risg

E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):**

A. Parnell, Rheolwr Pensiwn a Buddsodiadau Gyllidol

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd

M. Runeckles, Swyddog Cefnogi Aeolodau

**Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 yb - 12.12 yp**

Dywedwyd wrth y Pwyllgor, yn unol â Rheol 2(3) o Weithdrefn y Cyngor, y byddai trefn y materion ar yr agenda yn cael ei newid er mwyn ystyried Eitem Rhif 3.2 ar yr Agenda cyn Rhif 3.1 ac Eitem Rhif 5.2 ar yr Agenda cyn Rhif 5.1.

## **1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd K. Davies.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Yr Aelod	Eitem Agenda	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd K. V. Broom	5 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 5.1 - 5.4)	Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed
Mrs Karen Jones	5 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 5.1 - 5.4)	Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed
M. MacDonald	5 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 5.1 - 5.4)	Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed
Y Cynghorydd P. T. Warlow	5 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 5.1 - 5.4)	Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed
Y Cynghorydd D. E. Williams	5 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 5.1 - 5.4)	Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed Cadeirydd Pwyllgor Cronfa Bensiwn Dyfed
Y Cynghorydd J. Williams	5 - Datganiad Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed (yn cynnwys 5.1 - 5.4)	Aelod o Gronfa Bensiwn Dyfed

## 3. DATGANIAD CYFRIFON 2022/23 CYNGOR SIR GAERFYRDDIN:

### 3.1. DATGANIAD CYFRIFON CYNGOR SIR GAERFYRDDIN 2022/23

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Datganiad Cyfrifon 2022/23 ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin, a oedd wedi'i baratoi yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'u diwygiwyd yn 2018). Dywedwyd, yn sgil cyflwyno'r safon archwilio ddiwygiedig (ISA 315 (UK) ac oedi o ran cwblhau rhai cyfrifon 2021/22, y dyddiad cau statudol ar gyfer cyfrifon 2022/23 wedi'u harchwilio wedi'i ymestyn i 30 Tachwedd 2023.

Rhoddwyd trosolwg i'r Pwyllgor o'r pwyntiau amlwg yn y Datganiad Cyfrifon a oedd yn crynhoi sefyllfa ariannol yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, ac a oedd yn cynnwys y diwygiadau y cytunwyd arnynt gydag Archwilio Cymru fel rhan o'i archwiliad.

Mewn perthynas â Chronfa'r Cyngor, cadarnhawyd nad oedd unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i gronfa wrth gefn y Gronfa Gyffredinol na balans y Cyfrif Refeniw  
Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Tai ar ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor fod archwilio wedi nodi gwariant cyfalaf o £1.058m a dalwyd ym mis Ebrill 2023 oedd yn ymwneud â 2022/23 ac felly roedd angen addasu'r gwariant cyfalaf a gostyngiad cysylltiedig yng Nghronfeydd wrth Gefn Neilltuedig y Cyngor.

Cyfeiriwyd hefyd at y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 a fyddai'n cyd-fynd â'r Datganiad Cyfrifon i ddangos cydymffurfiaeth yr Awdurdod â fframwaith CIPFA a SOLACE a'i saith egwyddor graidd o lywodraethu da. Mewn diweddariad i'r Pwyllgor, dywedodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod mân addasiad wedi'i wneud ers dosbarthu dogfennau'r cyfarfod, i'r ffigurau sy'n ymwneud â nifer yr achosion o dorri rheolau data personol a digwyddiadau seiberddiogelwch a nodir yn adran 3.3.7.4 o'r ddogfen.

Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yn falch o adrodd, er gwaethaf cefndir yr hinsawdd macro-economaidd bresennol, fod statws ariannol cyffredinol yr Awdurdod wedi cael ei gynnal ar lefel ddarbodus. I grynhoi, diolchodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i Bennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'i dîm am eu gwaith rhagorol i baratoi'r Datganiad Cyfrifon.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:-

Cyfeiriwyd at y gyllideb refeniw yn manylu ar y gwariant adrannol yn ystod y cyfnod adrodd. Yng ngoleuni'r gorwariant sylweddol a adroddwyd ar gyfer gofal cymdeithasol, gwasanaethau plant ac ysgolion, pwysleisiodd y Pwyllgor yr angen i fod yn wylidwrus o'r rhesymau sylfaenol dros y gorwariant, a chroesawodd y camau a eglurwyd oedd yn cael eu cymryd gan yr Awdurdod yn hyn o beth.

Tynnwyd sylw at y Cyfrif Refeniw Tai lle codwyd pryderon mewn perthynas â'r cynnydd mewn ôl-ddyledion rhent tenantiaid, gyda pherfformiad yr Awdurdod y tu hwnt i ymyl yr hyn a ystyriwyd yn lefel arfer dda. Cyfeiriodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol at effaith pandemig y coronafeirws ar lefel ôl-ddyledion tenantiaid presennol a rhoddodd grynodedb o reolaeth a pherfformiad ôl-ddyledion rhent yr Awdurdod yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a oedd wedi gwella ers 2021 ac a oedd yn ffafriol o gymharu ag Awdurdodau eraill.

Cyfeiriwyd at y wybodaeth gamarweiniol ddiweddar a ddyfynnir yn y wasg a'r cyfryngau mewn perthynas â sefyllfa gyllidebol yr Awdurdod. Eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod yr amrywiant yn sefyllfa Alldro Rhaglen Gyfalaf yr Awdurdod, ar y cyfan, yn gysylltiedig yn bennaf i faterion a oedd wedi arwain at lithriad ar gyfer prosiectau parhaus. Yn unol â hynny, rhoddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai'r Awdurdod yn ceisio cywiro unrhyw gamddechongli gwybodaeth.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod adolygiad blynyddol o'r cynllun busnes tai a'r gyllideb wedi'i gynnal fel rhan o waith monitro'r Awdurdod o'i stoc dai a'i gostau cynnal a chadw cysylltiedig, a ddiweddarwyd i adlewyrchu cost gynyddol deunyddiau a llafur.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Mewn diweddariad i'r Pwyllgor yn dilyn ymholiad ynghylch dyfarniad cyflog athrawon, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod hysbysiad wedi dod i law yn ddiweddar y byddai'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ddarparu ar gyfer y dyfarniadau cyflog athrawon o fewn cynigion y gyllideb o hyn ymlaen.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

- 3.1.1 cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2022/23 wedi'i archwilio ar gyfer Cyngor Sir Caerfyrddin.**
- 3.1.2 cyflwyno adroddiad i gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn y dyfodol sy'n nodi rheolaeth yr Awdurdod o ôl-ddyledion tai tenantiaid, i gynnwys ffigurau cymharol gydag Awdurdodau eraill.**

### **3.2. ADRODDIAD DATGANIADAU ARIANNOL - CYNGOR SIR GAERFYRDDIN**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Archwilio Cymru ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r prif ganfyddiadau a ddeilliodd o'r archwiliad a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru o gyfrifon yr Awdurdod ar gyfer 2022/23.

Yr Archwilydd Cyffredinol oedd yn gyfrifol am ddarparu sylwadau ynghylch a oedd y datganiadau ariannol yn olwg gywir a theg ar sefyllfa Cyngor Sir Caerfyrddin ar 31 Mawrth 2023.

Tynnodd Mr D Owen, Cynrychiolydd Archwilio Cymru, sylw'r Pwyllgor at baragraff 7 o'r adroddiad gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith archwilio rhagorol a oedd wedi ei gwblhau ers dosbarthu'r ddogfen.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y cyfrifon, a fyddai'n cael ei chyhoeddi ar ôl i'r Llythyr Sylwadau ddod i law. Roedd y Pwyllgor hefyd yn falch o nodi nad oedd unrhyw gamdatganiadau wedi'u nodi yn y datganiadau ariannol a oedd yn dal heb eu cywiro.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:-

Gofynnwyd am ragor o fanylion mewn perthynas â'r camddatganiad wedi'i gywiro ynghylch ailbriso asedau a nodir yn Atodiad 3 yr adroddiad. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Ariannol yn briodol fod cyfran sylweddol o'r camddatganiad yn ymwneud â'r rhaglen tai cymdeithasol lle nad oedd ailbriso wedi'i wneud yn dilyn trosglwyddo asedau o 'yn cael eu hadeiladu' i 'yn cael eu defnyddio'n weithredol'. Esboniwyd bod lefel yr ailbriso yn ymwneud â'r cynnydd sylweddol yng nghyfradd rhaglen dai'r Cyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a waethygyd ymhellach gan bandemig y coronafeirws a chynnydd mewn costau adeiladu; At hynny, o fewn cyfrifon yr Awdurdod, roedd tai cymdeithasol yn cael eu prisio ar sail gostyngol i werth y farchnad.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Dangosodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad am yr holl staff sy'n ymwneud â llunio adroddiad cadarnhaol a chalonogol a oedd yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor mewn perthynas â sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Archwilio Cymru ar yr Archwiliad o Gyfrifon Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2022/23.**

#### **3.3. LLYTHYR CYNRYCHOLAETH I ARCHWILIO CYMRU CYNGOR SIR GAR**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru a oedd wedi'i baratoi gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn unol â gofynion y Datganiad ar Safonau Archwilio (SAS440 - Sylwadau Rheolwyr).

Roedd angen cydnabyddiaeth ffurfiol y Pwyllgor o ymateb Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar Archwilio Cymru hefyd.

### **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gydnabod yn ffurfiol y Llythyr Sylwadau gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio at Archwilio Cymru.**

#### **3.4. YMHOLIADAU ARCHWILIO AR GYFER Y RHEINY SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHU A RHEOLAETH**

Cafodd y Pwyllgor ymatebion yr Awdurdod i Archwilio Cymru ar nifer o feysydd llywodraethu a effeithiodd ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol. Roedd yr ystyriaethau hynny yn berthnasol i reolwyr y Cyngor a'r 'rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu', sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn cyfrannu at ddealltwriaeth Archwilio Cymru o'r Cyngor a'i brosesau busnes er mwyn cynorthwyo Archwilio Cymru i roi barn archwilio ar ddatganiadau ariannol 2022/23.

Rhoddyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:-

Tynnwyd sylw at ymholiadau rheolwyr mewn perthynas â thwyll lle nodwyd y gallai'r Awdurdod, yn ei ymateb, gyfeirio at nifer y cwynion a oedd yn datgelu camarfer a drosglwyddwyd o'r blynyddoedd blaenorol. Cyfeiriwyd hefyd at yr hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Dwyll a Seiberdroseddu a ddarparwyd gan Heddlu Dyfed-Powys lle awgrymodd y Pwyllgor y dylid cynnwys presenoldeb y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Aelodau'r Cyngor yn y digwyddiadau hyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r ymatebion i'r ceisiadau a wnaed i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y nodir yn yr adroddiad, ac yn amodol ar y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor yn y cyfarfod.**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

#### **4. DATGANIAD ARIANNOL AWDURDOD HARBWR PORTH TYWYN 2022-23**

Dyweddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wrth y Pwyllgor fod yr adroddiad sy'n ymwneud â datganiad cyfrifo 2023-23 Awdurdod yr Harbwr wedi'i archwilio wedi cael ei dynnu'n ôl gyda'r bwriad o gael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yn hyn o beth, eglurwyd bod yr adroddiad yn ffeithiol gywir, ystyriwyd ei bod yn briodol cynnwys datganiadau ychwanegol ynghylch y gweithgareddau a'r risgiau ar ôl i'r Marine & Property Group Ltd fynd i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Mehefin 2023.

#### **5. DATGANIAD CYFRIFON CRONFA BENSIWN DYFED:**

[Roedd y Cynghorydd K.V. Broom, Mrs K. Jones, Mr M. MacDonald, y Cynghorydd P. T. Warlow, y Cynghorydd D. E. Williams a'r Cynghorydd J. Williams wedi datan buddiant yn eitemau 5.1 – 5.4 ar yr agenda yn gynharach, a bu iddynt aros yn y cyfarfod wrth i'r eitemau gael eu hystyried].

##### **5.1. ADRODDIAD A CHYFRIFON BLYNYDDOL CRONFA BENSIWN DYFED 2022-2023**

Yn unol â darpariaethau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, cafodd Adroddiad Blynyddol a Datganiad Cyfrifon 2022-23 wedi'i archwilio, a oedd yn ymwneud â Chronfa Bensiwn Dyfed, eu rhoi gerbron y Pwyllgor i'w cymeradwyo. Roedd yr adroddiad blynyddol yn darparu gwybodaeth am sefyllfa ariannol, perfformiad a hyblygrwydd ariannol y Gronfa am y flwyddyn 2022-23.

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol fanylion am y mân ddiwygiadau a wnaed i'r cyfrifon a oedd yn cynnwys mewnosod Nodyn Digwyddiadau ar ôl y Fantolen nad oedd yn cael unrhyw effaith gyffredinol ar y datganiadau sylfaenol, a nodyn datgelu ar symud buddsoddiadau rhwng Lefel 3 a 2 o fewn nodyn 13.5 a 13.6 o'r datganiad cyfrifon. Cadarnhawyd bod yr holl newidiadau y cytunwyd arnynt gydag Archwilio Cymru wedi cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad Cyfrifon.

Cyfeiriwyd at y prisiad actiwaraid teirblwydd ar 31 Mawrth 2022 lle dywedwyd bod lefel ariannu'r Gronfa wedi cynyddu o 105% i 113% dros y tair blynedd ers 31 Mawrth 2019.

Nodwyd bod Asedau Net y Gronfa wedi gostwng £100m o 2021-22 i 2022-23 sydd, yn bennaf, oherwydd y gostyngiad yng ngwerth marchnadol yr asedau buddsoddi. Eglurwyd nad oedd y rhain yn golledion heb eu gwireddu gan nad oedd y Gronfa wedi gwaredu'r buddsoddiadau hyn.

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiynau a'i dîm ar ran y Pwyllgor am eu gwaith rhagorol i gydlynu Adroddiad Blynyddol a Datganiad Cyfrifon y Gronfa.

Rhoddwyd sylw i'r materion/sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor, fel a ganlyn:-

Mewn ymateb i ymholiad, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor am sefyllfa'r Awdurdod o ran ateb McCloud/Sargeant. Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

fanylion am yr effaith weinyddol o ran cysoni a dilysu data sydd eu hangen i sicrhau hawl i fudd-daliadau cywir ar gyfer achosion niweidiol ar unwaith a chadarnhaodd fod gwaith yn cael ei wneud gan gyflenwr y feddalwedd i adlewyrchu'r newidiadau sy'n ofynnol i'r system bensiynau. Adroddwyd bod y cynnydd mewn costau ymylol i rwymedigaethau'r Gronfa yn y dyfodol eisoes wedi'i ymgorffori yn rhagdybiaethau'r Actiwari felly nid oedd unrhyw effaith ariannol ychwanegol ar sefyllfa'r Gronfa.

Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y Datganiad Cydymffurfiaeth Llywodraethu, sicrhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol y Pwyllgor fod statws diffyg cydymffurfio yr Awdurdod i'w briodoli i'r strwythurau llywodraethu gwahanol ledled y DU nad ystyriwyd eu bod yn destun pryder i'r Awdurdod gan fod strwythur presennol y Pwyllgor Pensiwn yn effeithiol.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed 2022-23.**

### **5.2. ADRODDIAD DATGANIADAU ARIANNOL Y CRONFA BENSIWN DYFED**

Cafodd y Pwyllgor adroddiad Archwilio Cymru ar yr archwiliad o Gyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed i'w ystyried. Roedd yr adroddiad yn ystyried a oedd y datganiad ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Dyfed ar 31 Mawrth 2023 a'r incwm a'r gwariant yn ystod y flwyddyn honno.

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd Mr J Blewitt, Cynrychiolydd Archwilio Cymru, sylw'r Pwyllgor at baragraff 7 o'r adroddiad gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith archwilio rhagorol a oedd wedi ei gwblhau ers dosbarthu'r ddogfen.

Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi bod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar y cyfrifon a fyddai'n cael ei chyhoeddi ar ôl i'r Llythyr Sylwadau ddod i law. Roedd y Pwyllgor hefyd yn falch o nodi nad oedd unrhyw gamddatganiadau wedi'u nodi yn y datganiadau ariannol a oedd yn dal heb eu cywiro.

## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad Archwilio Cymru ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar gyfer Cyfrifon Cronfa Bensiwn Dyfed 2022-23.**

### **5.3. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH I ARCHWILIO CYMRU CRONFA BENSIWN DYFED**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru a oedd wedi'i baratoi gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, yn unol â gofynion y Datganiad ar Safonau Archwilio (SAS440 - Sylwadau Rheolwyr).

Roedd angen cydnabyddiaeth ffurfiol y Pwyllgor o ymateb Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar Archwilio Cymru hefyd.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod y Llythyr Sylwadau i Archwilio Cymru gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Dyfed yn cael ei gydnabod.**

#### **5.4. YMHOLIADAU ARCHWILIO AR GYFER Y RHEINY SYDD YN GYFRIFOL AM LYWODRAETHU A RHEOLAETH**

Cafodd y Pwyllgor ymatebion yr Awdurdod i Archwilio Cymru ar nifer o feysydd llywodraethu a effeithiodd ar yr archwiliad o ddatganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn. Roedd yr ystyriaethau hynny yn berthnasol i reolwyr Cronfa Bensiwn Dyfed a'r 'rheiny sy'n gyfrifol am lywodraethu', sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn cyfrannu at ddealltwriaeth Archwilio Cymru o Gronfa Bensiwn Dyfed a'i phrosesau busnes i'w gynorthwyo i roi barn archwilio ar ddatganiadau ariannol 2022-23.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo'r ymatebion i'r ceisiadau a wnaed gan reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad.**

#### **6. Y DIWEDDARAF YNGHYLCH AR CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2023/24**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu Cynllun Archwilio Mewnol 2023/24. Adolygodd y Pwyllgor y cynnydd a oedd yn cael ei wneud o ran gweithredu'r rhaglen archwilio a oedd yn dangos cyfradd gwblhau o 39% hyd yn hyn.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn y diweddariad o Gynllun Archwilio Mewnol 2023/24.**

#### **7. COFRESTR RISG CORFFORAETHOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Gofrestr Risg Gorfforaethol a oedd yn cael ei chadw er mwyn gwerthuso'r risgiau strategol allweddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu. Rhoddodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol grynodedb o'r 8 risg a oedd wedi'u dileu a'r 2 risg a oedd wedi'u hychwanegu at y gofrestr; ychwanegodd fod gwaith yn cael ei wneud i wella hyn ymhellach.

Rhoddwyd sylw i'r sylwadau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

Croesawodd yr Aelodau y gwelliannau a wnaed i symleiddio prosesau a oedd yn darparu cofrestr risg glir, â ffocws gwell ac addysgiadol i'w hadolygu gan y Pwyllgor.

Gwnaed ymholiad ynghylch y sgôr risg sy'n gymwys ar gyfer safleoedd y mae'r Awdurdod yn gyfrifol amdanynt ar gyfer adeiladau rhestredig neu henebion cofrestredig. Eglurwyd bod y wybodaeth y gofynnwyd amdani wedi'i chynnwys yn y gofrestr risg adrannol ac y byddai'n cael ei rhannu â'r Pwyllgor drwy e-bost.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf



## **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:**

**7.1 dderbyn Cofrestr Risg Gorfforaethol Cyngor Sir Caerfyrddin 2023/24.**

**7.2 Caiff gwybodaeth ei rhannu â'r Pwyllgor sy'n ymwneud â'r sgôr risg sy'n berthnasol ar gyfer safleoedd y mae'r Awdurdod yn gyfrifol amdanynt ar gyfer adeiladau rhestredig neu henebion hynafol.**

## **8. COFNODION GRWPIAU PERTHNSAOL I'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO:-**

### **8.1. COFNODIION Y PANEL GRANTIAU 28 MEHEFIN 2023**

Wrth ystyried amseroldeb cofnodion y Panel Grantiau, cydnabuwyd bod y cofnodion wedi'u cyflwyno i'r Pwyllgor at ddibenion gwybodaeth ar ôl i'r Panel gymeradwyo; felly, roedd yr aelodau yn fodlon parhau fel hyn.

Cyfeiriwyd at gofnod 3.0 lle cadarnhaodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol fod yr archwiliad o ffurflenni Budd-dal Tai ar gyfer 2021/22 wedi'i gwblhau.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Panel Grantiau a gynhaliwyd ar 28 Mehefin 2023.**

### **8.2. COFNODION Y GRWP LLYWIO RHEOLI RISG**

Mewn ymateb i'r pryderon a fynegwyd gan y Pwyllgor ynghylch y lefel uchel o ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar gyfer y cyfarfod, cytunodd y Pennaeth Refeniw a Chydymffurfiaeth Ariannol i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau cynrychiolaeth adrannol ym mhob cyfarfod a drefnwyd i aelodau'r Grŵp Llywio Rheoli Risg.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn cofnodion cyfarfod y Grŵp Llywio Rheoli Risg a gynhaliwyd ar 10 Awst 2023.**

## **9. LOG GWEITHREDU'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Cofnod o Gamau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio oedd yn manylu ar y camau i'w monitro/rhoi ar waith yn dilyn cyfarfodydd blaenorol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn Camau Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

**10. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD PWYLLGOR  
LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO AR 29 MEDI 2023**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** Iofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a gynhaliwyd ar 29 Medi 2023 yn gywir yn amodol ar ddiwygiadau gramadegol i gofnod 7, Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2022/2023 Cyngor Sir Caerfyrddin a chofnod 8, Rheolau Gweithdrefn Contract Diwygiedig.

\_\_\_\_\_  
**CHAIR**

\_\_\_\_\_  
**DATE**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf